Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **15 Chwefror 2017** | |
| **Amser:** | **10:00 – 12:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 31/1/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2102** | **Bydd JT yn sôn wrth AD am gynnig CM i'r SCHTh gymryd rhan yn y system PDR.** | **CA i gadarnhau amserau** |
| **PB 2103** | **DBG/DD i wirio pa un ai a yw Dyfed-Powys dal yn defnyddio cyflau poeri.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2104** | **Yr heddlu i roi diweddariad o ran nifer y marwolaethau mewn gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2105** | **Strwythur amlinellol ar gyfer CA i'w gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mewn 4 wythnos.** | **Parhaus** |
| **PB 2106** | **CM i anfon y cais gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r heddlu ar gyfer ei ystyriaeth.** | **Cwblhawyd** |

**Cam gweithredu: CA i gadarnhau'r amserlenni ar gyfer defnyddio SCHTh fel peilot ar gyfer y system PDR newydd.**

**Cam gweithredu: Y PG i rannu polisi drafft a baratowyd gan weithrediadau mewn perthynas â chyflau poeri.**

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 15/02/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 23** | **Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer y Bwrdd Plismona, a'i weithredu o 1 Ebrill 2017.** | **PS** |

**2. Cofnodion y cyfarfod Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 16 Ionawr a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, ond bod angen diwygio geiriad un pwynt mewn perthynas â chyllid.

PB 2097: Mae datganiad i'r wasg wedi'i rannu mewn perthynas â chyfarfod BP cyntaf y PG - cyflawnwyd y cam gweithredu.

PB 2098: Cyflwynwyd cylch gorchwyl terfynol y Bwrdd Plismona i'r CHTh - cyflawnwyd y cam gweithredu.

PB 2100: Mae'r CHTh yn gofyn am eglurhad mewn perthynas â'r cynllun dalfeydd ar gyfer yr heddlu - cam gweithredu'n parhau.

PB 2101: Anfonwyd llythyr gan SCHTh - cam gweithredu'n parhau.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Darparodd y PG ddiweddariad o faterion sefydliadol cyn y cafwyd trafodaeth mewn perthynas â strwythuro a oedd yn deillio o lythyr gan y Gwir Anrhydeddus Brandon Lewis am Effeithlonrwydd Plismona, eitem o dan UFA.

**Cam gweithredu: Bydd y PG yn rhoi manylion costau materion sefydliadol diweddar i'r CHTh.**

Hefyd, darparwyd trosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys diweddariadau mewn perthynas â nifer o achosion o hunanladdiad, 2 ymosodiad ar swyddogion heddlu a digwyddiad arfau saethu yng Ngheredigion.

**Cam gweithredu: Y PG i roi diweddariad ar gynlluniau'r heddlu i ymdrin â bwlio mewn ysgolion dros y misoedd i ddod.**

Diweddarodd y PG y CHTh mewn perthynas â marwolaeth a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau yn Aberhonddu. Cafwyd trafodaeth am nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Sir Gaerfyrddin.

**Cam gweithredu: Y PG i gyflwyno dogfen i'r CHTh sy'n cynnwys nifer yr arestiadau yn ystod cyfnod penodol, gan edrych ar Sir Gaerfyrddin a Llanelli yn arbennig.**

**Cam gweithredu: Y PG i gyhoeddi manylion gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau dros y 6 mis diwethaf, a'r frwydr barhaus a rhagweithgarwch yr heddlu, i'r cyfryngau.**

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cynghorodd y CHTh y Bwrdd fod ganddo'r Portffolio Arweinyddiaeth Cenedlaethol gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a bydd yn cwrdd â'r Prif Gwnstabl er mwyn trafod materion sy'n codi. Dywedodd y CHTh ei fod yn anelu i ddatblygu'r Pencadlys fel canolfan ragoriaeth o ran arweinyddiaeth, ac mae'n gobeithio cynnal cynhadledd arweinyddiaeth yn y Pencadlys yn y dyfodol. Bydd y CHTh yn rhoi gwybodaeth i'r PG mewn perthynas â'i ddyhead i ymgysylltu â phrifysgolion lleol. Gofynnwyd iddo adnabod 2-3 blaenoriaeth arwain i'w symud ymlaen ar sail genedlaethol. Mae'r CHTh yn gobeithio y bydd ei waith ei hun o ran arweinyddiaeth ac ymagwedd yr Heddlu'n ategu ei gilydd.

Cyfarfu'r CHTh ag Alun Michael ar 14 Chwefror 2017. Cafwyd trafodaeth am gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Dywedodd y CHTh y dylid archwilio i gydweithio, gan ganolbwyntio ar safonau a chyflenwi gwasanaethau.

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cwrdd â Dusty Kennedy ar 14 Chwefror 2017. Dywedwyd wrth y PG bod gwaith da'n cael ei gwblhau o gwmpas seicoleg clinigol mewn gwasanaethau ieuenctid a fyddai'n cyd-fynd â gwasanaethau ieuenctid yn ardal Dyfed-Powys.

## Materion yn Codi

### Cylch Gorchwyl drafft y Bwrdd Plismona (CG)

Ystyriwyd a thrafodwyd y CG drafft. Awgrymodd y CA y dylai gynnwys cyfeiriad at benderfyniadau ynghylch materion caffael ayyb yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Cytunwyd y byddai'r CG yn cael ei dderbyn gyda'r diwygiad hwn, a byddai'n cael ei weithredu o 1 Ebrill 2017.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer y Bwrdd Plismona, a'i weithredu o 1 Ebrill 2017.**

**Cynllun Ymgyrch Darwen**

Cyfarfu'r CHTh â grŵp cymunedol yn Nhalgarth sy'n cefnogi gweithgareddau diogelwch y ffyrdd. Cwestiynodd y CHTh pa un ai a fyddai cyfle i ymgysylltu â'r Ymgyrch Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned. Amlinellodd y PG ei gynlluniau ar gyfer cysylltu Ymgyrch Darwen a diwrnodau gweithredu'r URS a'i fwriad i gynnwys gwirfoddolwyr. Ymrwymodd i roi cynllun 2017 ar gyfer Ymgyrch Darwen i'r CHTh.

**Cam gweithredu: Y PG i gysylltu Ymgyrch Darwen â diwrnodau gweithredu'r URS a chynnwys gwirfoddolwyr.**

Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd cyfle i gynyddu nifer y diwrnodau Ymgyrch Darwen, a pha un ai a fyddai modd mesur cost cynnal diwrnod Ymgyrch Darwen ym mhob sir. Cytunwyd y dylid ystyried y peth a rhannu'r wybodaeth â'r CHTh.

**Cam gweithredu: CC i roi gwybodaeth am gostau mewn perthynas ag Ymgyrch Darwen i'r CC.**

**Ystadau**

Mae'r mater hwn yn ymwneud â thrafodaethau blaenorol rhwng y CHTh a'r PG mewn perthynas â chyfrifoldeb ar gyfer adeiladau. Mae'r CHTh yn anelu i gwblhau gwaith adeiladau ac ystadau dros y 2-3 mis nesaf gan ddibynnu ar ganlyniad y fformiwla ariannu. Mae'r PG wedi cwrdd â chomanderiaid URS ar 9 Mawrth. Estynnir gwahoddiad i'r CY fynychu a rhoi gwybodaeth i swyddogion am ofynion. Gofynnwyd i'r CY gynhyrchu argraffiad artist lefel uwch o edrychiad posibl y Pencadlys ar ôl gwaith adeiladau ac ystadau yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Y CY i fynychu cyfarfod gyda'r PG a Chomanderiaid URS ar 9/3/17 i drafod gofynion gweithredol ar gyfer ystadau.**

**Cronfa Trawsnewid**

Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yw 28 Chwefror. Gofynnodd y CHTh pa un ai a allai Paul Morris gynorthwyo â drafftio mynegiannau o ddiddordeb. Cytunodd y PG. Dywedodd y PG bod gan Ddyfed-Powys gyfle i fod yn heddlu arweiniol ar gyfer cynnig trawsnewidiol. Byddai'r manylion yn cael eu rhannu â'r CHTh ar gyfer ei ystyriaeth.

**Cam gweithredu: Paul Morris i gynorthwyo â drafftio Mynegiannau o Ddiddordeb i'w cyflwyno erbyn 28/2/17.**

**Unrhyw fusnes arall**

**Effeithlonrwydd yr Heddlu - llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Brandon Lewis AS**

Cam gweithredu: Y CA i ymgysylltu â'r PSA erbyn 20 Chwefror 2017 mewn perthynas â chyflwyniad yr Heddlu ar effeithlonrwydd yr heddlu.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Darparodd y PS drosolwg o Gynllun Cydraddoldeb Strategol SCHTh a oedd wedi'i ddatblygu gan ystyried Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Heddlu. Ceisiwyd adborth ar y drafft. Bwriedir cyhoeddi'r Cynllun ar 1/4/2017.

**Bwrdd Galluoedd Arbenigol - Llythyr gan y PG Thornton**

Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â'r cais cronfa drawsnewidiol gan y tîm galluoedd arbenigol, sydd o gwmpas £13 miliwn, a'r cyfleoedd posibl y mae hyn yn cynnig.

**Cam gweithredu: PG i ddrafftio ymateb i'r PG Thornton**

Mae'r CHTh wedi derbyn ymholiad gan orsaf Dinbych-y-pysgod mewn perthynas â phatrymau sifft a pha un a fydd oriau'n cael eu torri. Ceisiodd y CHTh eglurhad mewn perthynas ag effaith unrhyw newidiadau i batrymau sifft ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

**Cam gweithredu: Rhoi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas ag effaith newidiadau sifft ar wasanaethau i'r cyhoedd, a'r PG i ystyried ymateb i bryderon a godwyd yn Ninbych-y-pysgod gan y cyfryngau lleol.**

**Ymddiriedolaeth Atal Trosedd Dyfed-Powys**

Ystyriwyd Ymddiriedolaeth Atal Trosedd Dyfed-Powys a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r CHTh eisiau adfywio'r gwaith elusennol a theimlodd bod cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol ar y cyd â'r Heddlu. Roedd y PG yn llwyr gefnogi hyn.

Cam gweithredu: Y CHTh i symud ymlaen â chyfleoedd i adfywio'r gwaith elusennol.

**Gwalia**

Soniodd y PS am anawsterau parhaus a brofir gan Gwalia mewn perthynas â systemau TG yr heddlu. Dylai'r gwaith fod wedi'i gyflawni eisoes ond roedd y PS wedi ei sicrhau y

byddai rhan ohono'n cael ei orffen erbyn 22 Chwefror. Gofynnodd y PG am gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau.

Daeth y cyfarfod i ben gyda'r CHTh yn diolch i MMS am ei gefnogaeth yn ei gapasiti fel Swyddog Staff y Prif Gwnstabl a dymunodd y gorau iddo yn ei rôl newydd yn Sir Benfro.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/02/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif cam gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2107** | **CA i gadarnhau'r amserlenni ar gyfer defnyddio SCHTh fel peilot ar gyfer y system PDR newydd.** | **CA** |
| **PB 2108** | **Y PG i rannu polisi drafft a baratowyd gan weithrediadau mewn perthynas â chyflau poeri.** | **PG** |
| **PB 2109** | **Bydd y PG yn rhoi manylion costau materion sefydliadol diweddar i'r CHTh.** | **PG** |
| **PB 2110** | **Y PG i roi diweddariad ar gynlluniau'r heddlu i ymdrin â bwlio mewn ysgolion dros y misoedd i ddod.** | **PG** |
| **PB 2111** | **Y PG i gyflwyno dogfen i'r CHTh sy'n cynnwys nifer yr arestiadau yn ystod cyfnod penodol, gan edrych ar Sir Gaerfyrddin a Llanelli yn arbennig.** | **PG** |
| **PB 2112** | **Y PG i gyhoeddi manylion gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau dros y 6 mis diwethaf, a'r frwydr parhaus a rhagweithgarwch yr heddlu, i'r cyfryngau.** | **PG** |
| **PB 2113** | **Y PG i gysylltu Ymgyrch Darwen â diwrnodau gweithredu'r URS a chynnwys gwirfoddolwyr.** | **PG** |
| **PB 2114** | **CC i roi gwybodaeth am gostau mewn perthynas ag Ymgyrch Darwen i'r CC.** | **PSA** |
| **PB 2115** | **Y CY i fynychu cyfarfod gyda'r PG a Chomanderiaid URS ar 9/3/17 i drafod gofynion gweithredol ar gyfer ystadau.** | **CY** |
| **PB 2116** | **Paul Morris i gynorthwyo â drafftio Mynegiannau o** | **Paul Morris** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ddiddordeb i'w cyflwyno erbyn 28/2/17.** | |
| **PB 2117** | **PG i ddrafftio ymateb i'r PG Thornton** | **PG** |
| **PB 2118** | **Rhoi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas ag effaith newidiadau sifft ar wasanaethau i'r cyhoedd, a'r PG i ystyried ymateb i bryderon a godwyd yn Ninbych-y-pysgod gan y cyfryngau lleol.** | **PG** |